PWYLLGOR PENODI - CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL, ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

DYDD MAWRTH, 19 CHWEFROR 2019

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | Cynghorydd (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Boyle, Hinchey, Lister, Merry a/ac Williams |

1 : PENODI CADEIRYDD

Apwyntiwyd y Cynghorydd Sarah Merry yn Gadeirydd y Pwyllgor.

2 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni wnaed unrhyw ymddiheuriadau

3 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni fu datganiadau buddiannau yn y cyfarfod hwn.

4 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd y Cylch Gorchwyl fel a ganlyn:

"*Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â phenodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol y Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor"*.

5 : EITHRIO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd yn ystod y drafodaeth am yr eitem busnes ganlynol ar y sail, pe bai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes a drafodir, y datgelid iddynt wybodaeth a eithrir fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod:-

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n berthnasol i ymgeisydd yn dod yn gyflogai'r Awdurdod; a

Pharagraff 13 - Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.

6 : PENODI CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

Cafodd y Pwyllgor Penodi ei ymgynnull i ystyried rhestr hir yr ymgeiswyr ar gyfer penodi Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Darparodd y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes drosolwg ar rôl a chyfrifoldebau y swydd hon a'r cymwyseddau allweddol sy'n ofynnol gan ddeiliad y swydd.

Adolygodd y Pwyllgor y 22 o geisiadau a gyflwynwyd ac ystyriodd sut yr oedd ymgeiswyr yn bodloni'r galluoedd hanfodol o'r Fframwaith Galluoedd Ymddygiadol a'r Proffil Rôl; a nododd yr ymgeiswyr a âi ymlaen i gael eu hasesu.

PENDERFYNWYD - Bod Ymgeiswyr 6, 8, 20, 21 a 22 yn cael eu cyflwyno ar gyfer asesiad a gynhelir ar 15 Mawrth 2019.

7 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - DYDD LLUN 25 MAWRTH 2019 AM 12.00 CANOL DYDD

Daeth y cyfarfod i ben am 2.30 pm